"A"

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 14eg Hydref, 2024**, yn Neuadd Goffa, Sarn, o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Michael Strain (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Efan Thomas, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams

Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

45. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Estynodd gydymdeilad â'r Cynghorydd Carys E. Williams yn ei phrofedigaeth o golli ei thad.

Tynnodd sylw hefyd at y Diwrnod Agored i Gapel Newydd, Nanhoron ar 28ain Hydref, 2024, gan AHNE Llyn – rhaid archebu lle ymlaen llaw.

46. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

47 CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 9fed MEDI, 2024

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 9fed Medi, 2024.

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Dylan Parry Jones gyda phawb yn cytuno).

Materion yn codi

(a) Eitem 40 (a) Cae Capel, Botwnnog – Cais Cynllunio C24/0205/32/LL

Adroddwyd fod y cais uchod gerbron Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd y Llun canlynol ond nad oedd unrhyw addasiad wedi wneud i'r cynlluniau. Wedi trafodaeth eang, **penderfynwyd**

(1) **Anfon llythyr at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd** gyda chopi i'r Pennaeth Cynllunio yn datgan diffyg hyder yn y Pwyllgor Cynllunio – dyfynnir isod yr union lythyr anfonwyd at y Prif Weithredwr:

"Yn dilyn trafodaeth eang penderfynwyd mynegi diffyg hyder ym Mhwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd. Mynegwyd bryder a siom gan Aelodau'r Cyngor Cymuned bod y cais yma wedi ei ail gyflwyno heb ddim addasiadau a fyddai wedi adlewyrchu pryderon trigolion lleol pentref Botwnnog a'r ardal yn ehangach. Anghredadwy yw bod Cyngor Gwynedd yn bwriadu bwrw ymlaen gyda'r cais a fyddai yn cynyddu maint pentref Botwnnog yn un rhan o dair yn fwy heb ystyried y rhesymau dilys a godwyd dros wrthwynebu y cais yma yn chwyrn.

(a) Mae codi deunaw o dai yma yn mynd i ddinistrio cymeriad pentref Botwnnog yn gyfangwbl a'i drawsnewid ar sawl lefel heb unrhyw dystiolaeth bod angen yr holl dai yn yr ardal. Yn wir, mae gosod dau dŷ gwag yn Stad Congol Meinciau yn y pentref wedi bod yn broses hirfaith gan nad oedd gofyn am y tai. Yn wir, dim ond un teulu lleol sydd wedi ei cartrefu yno ac mae'r ail dŷ wedi ei osod i deulu o'r tu allan i'r ardal.

(b) Mae'n mynd i gael effaith andwyol ar y Feddygfa Rhyd Bach sydd bellach i'w llawn gapasiti fel ac y mae. Ni all cleifion cofrestredig gael apwyntiadau, yn wir mae yn hollol amhosibl.

(c)Y ddwy Ysgol Ieol, Ysgol Gynradd Pont-y-Gof, sydd hefyd yn gartref i'r Ysgol feithrin, a'r Ysgol Uwchradd yn llawn yn barod. Bydd unrhyw fewnlifiad yn cael effaith andwyol ar ddiwylliant addysgol cartrefol gwledig yr ysgolion. Bydd iaith a diwyg yr ysgolion yn dirywio. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg y bydd y datblygiad yma gael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg yn y ddwy ysgol.

(ch)Mae'r safle trin carthffosiaeth ym Motwnnog ar ei lawn gynhwysedd fel ac y mae. Pe caniateir codi mwy o dai yn y pentref ni fydd y safle yn gallu ymdopi. Bydd carthion heb eu trin yn gorflifo i Afon Soch ac yn achosi problemau iechyd cyhoeddus a phroblemau amgylcheddol difrifol. Ac yn sicr ni fydd trigolion Abersoch yn hapus gyda hyn. Gallwch eich sicrhau y byddwn yn monitro sefyllfa glendid Afon Soch yn fanwl a rheolaidd pe rhoddir caniatad i'r datblygiad ac yn pasio gwybodaeth i Gyfoeth Naturiol Cymru ac Adran yr Amgylchedd Senedd Cymru. Mae yn ddyletswydd ar Gyngor Gwynedd i ddiogelu iechyd cyhoeddus.

d) Y fynedfa i'r datblygiad – bydd cerbydau yn dod allan i'r briffordd sy'n arwain o Bwllheli i Aberdaron a hynny o fewn cyrraedd i loches bws, Meddygfa Rhydbach ac hefyd y gyffordd sy'n ymuno a'r briffordd o Rhiw. Mae'r gongl cer Capel Rhyd Bach yn un 90gradd gyda mynedfa iddi o ffordd Y Rhiw.

(dd) Deallir fod y Swyddogion wedi mynegi na fydd yn cael effaith ar yr iaith – onid yw hyn yn mynd yn groes i bolisi'r Llywodraeth lle maent yn anelu at gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?

Rydym wedi rhoi amlinelliad byr o'r pryderon a'r farn rydym wedi ei dderbyn gan drigolion Botwnnog a thu hwnt ac yn wir wedi mynegi y pryderon hyn yn llawer mwy eang mewn gohebiaeth flaenorol. Yn wyneb hyn, teimlad y Cyngor Cymuned yw mai ychydig iawn, os nad dim, yw'r sylw roddwyd gan y Swyddogion a'r Pwyllgor Cynllunio i'r sylwadau a gyflwynwyd yn barod ar gais mor ddadleuol a hwn. Mae hyn yn warthus o ystyried yr holl fanterion a nodwyd yn erbyn y cais a difrifoldeb yr effaith ar sawl haeb yn y gymuned. Rydym yn hynod o siomedig yn niffyg Cyngor Gwynedd a'r Adran Cynllunio i gydymdeimlo gyda pryderon dwys a gwrthwynebiad dilys y trigolion lleol. Yn syml, mae'r datblygiad yn rhy fawr a does dim galw yn lleol am ddatblygiad o'r maint yma. Yr unig bobl a all elwa yw'r datblygwr, Adra a Chyngor Gwynedd a hynny ar drael trigolion Botwnnog a'r ardal ehangach. Hoffem felly ofyn i chwi feddwl yn ofalus iawn cyn gwenud eich penderfyniad.

Hyderwn y byddwch yn parchu ewyllys bobl lleol Botwnnog gan gymryd sylw o'r pryderon ger eich bron a meddwl yn ofalus a doeth cyn gwneud penderyniad yn y Pwyllgor Cynllunio yr wythnos nesaf."

(2) Cyflwyno datganiad i'r Wasg – dyma'r datganiad anfonwyd at nifer eang o bapurau newydd a'r radio/teledu:

"DATGANIAD I'R WASG GAN GYNGOR CYMUNED BOTWNNOG

Deallir fod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd, yn ei gyfarfod ddydd Llun, 21ain Hydref, yn ail ystyried cais i godi 18 o dai fforddiadwy gyda datblygiadau cysylltio ar dir ger Cae Capel, Botwnnog, Pwllheli, er i'r Pwyllgor diwethaf ei wrthod.

Mae'r Cyngor wedi penderfynu mynegi diffyg hyder yn y Pwyllgor Cynllunio gan na fu iddynt ystyried pryderon y trigolion lleol ac ardaloedd ehangach. Amlinellwyd y pryderon a oedd yn cynnwys bod y datblygiad yn mynd i ddinistrio a thrawsnewid y pentref; yr effaith ar Y Feddygfa leol; yr Ysgolion yn y pentref, y safle trin carthffosiaeth sydd ar ei lawn gymhwysedd, y fynedfa i'r datblygiad i'r briffordd, a'r effaith ar yr laith Gymraeg a'r ffaith nad oes angen yn lleol am dai.

BOTWNNOG COMMUNITY COUNCIL'S PRESS RELEASE

The proposed application to build 18 affordable homes on Cae Capel field, Botwnnog, Pwllheli, will be discussed again by Gwynedd Council's Planning Committee, next Monday, 21st October, even though it was rejected a few weeks ago.

The Council have decided at its meeting held last night to write to the Chief Executive of the Council to express a vote of no confidence in the Planning Committee on the grounds that Gwynedd Council Planning Committee didn't take into consideration the objections received by the local community and the surrounding area. The following points were again drawn to their attention that this development would be detrimental by changing the character of Botwnnog through over development and the stain this would place on the Surgery, Schools; the sewerage work which is already full up to capacity; traffic congestion and access to the proposed housing estate, and the effect on the Welsh language. There is no local need for this housing development."

(b) Cymal (c) – Rheolau Sefydlog

Penderfynwyd mabwysiadu Rheolau Sefydlog 2024 sy'n cydymffufio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol gan gynnwys Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Bydd copi o'r Rheolau i fyny ar wefan y Cyngor.

(c) **Eitem 42 – Materion Ffyrdd**

Adroddwyd y bu i'r Cadeirydd a'r Cynghorydd Dylan Parry Jones gyfarfod â Swyddog o Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd ar 10fed Medi, 2024, i drafod y cwynion oedd wedi dod i law ynglyn a'r dŵr yn llifo i lawr wyneb y ffordd o Brookside am Siop y Bont, Llangwnnadl. Cafwyd cyfarfod bendithiol ac mae'r gwaith bellach wedi ei wneud – diolchir i'r Adran Priffyrdd am ymateb i gais y Cyngor.

Tra yn y cyfarfod tynnodd y Cynghorwyr sylw at y tyfiant 'knotweed' sydd ger Llety, Bryncroes – dywedodd y Swyddog na allant ymgymgryd a'r gwaith yma gan mai tir preifat oedd.

Adroddodd y Clarc i Swyddog o'r Heddlu addo bod yng nghyffiniau Allt Mellteyrn yn y boreau (adeg plant fynd i'r Ysgol) a'r prynhawniau. Ceisiodd gael gafael ar yr Heddwas ond yn anffodus ni ddaeth yn ôl ati.

Ymhellach derbyniwyd ymateb Uwch Beiriannydd Traffig Cyngor Gwynedd i gais am arwydd newydd ym Mhedair Croeslon ac hefyd arwydd newydd am Gapel Ty Mawr Bryncroes, fel a ganlyn:

"Ar hyn o bryd yr wyf yn ceisio ddelio gyda ôl groniad dwys yr Uned Traffig ac yn delio gyda ymholiadau hanesyddol yn gyntaf cyn dod i'r rhai mwyaf ddiweddar – ac

mi fydd yna oediad o rhai misoedd cyn y byddwn allu rhoi sylw i ymholiadau mwyaf diweddar.

Fydd rhaid i mi basio'r ymholiad yma ymlaen mae gen i ofn ac am ofyn yn garedig i Eurun gysylltu yn ôl gyda chi. Nid yr wyf yn siŵr os y bydd gyda'r cynhwysedd i ymgymryd a'r weithred ond dwi'n siŵr fydd Eurun mewn cysylltiad gyda chi i gynnig ymateb."

Penderfynwyd

(i) Gwneud ymholiadau â Chyfoeth Naturiol ynglyn a'r tyfiant ger Llety, yr afon ym Mryncroes ac ar Allt Mellteyrn.

(ii) Gofyn i 'Arrive Alive' ddod i'r safle ger Garej S & B Robets er ceisio atal y goryrru sydd ar allt Mellteyrn.

(iii) Gofyn i Mabon ap Gwynfor, yr Aelod Seneddol, am ei arweiniad yn y mater.

(iv) Addawodd y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir, y byddai yn gwneud ymholiadau er canfod a oedd yn bosibl cael rhoi arwyddion i fyny ar Allt Mellteyrn yn tynnu sylw at y cyflymdra sydd yn bodoli – e.e. arwyddion camera, a.y.

(v) Rhoddi gwybodaeth ddiweddaraf am yr arwyddoion i'r rhai holwyd am arwyddion.

48. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ni dderbyniwyd unrhyw gais i'w ystyried.

49. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

Penderfynwyd

(a) Diolch i'r Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd, am y gwaith da a wnaed ganddynt ar y ffordd o Brookside i lawr am Siop y Bont, Llangwnnadl.

(b) Tynnu sylw'r Adran Priffyrdd at dwll dwfn sydd wedi datblygu ger Bwthyn Gwyn, Bryncroes; gofyn am gael barbio'r brigau/coed sydd ar y ffordd gefn (cefn Pencraig) sy'n arwain i lawr am Sarn Mellteyrn ac hefyd tynnu sylw at yr ysbwriel sydd wedi ei daflu i'r gongl ar Allt Mellteyrn sy'n arwain am Dudweiliog.

50. SEFYLLFA ARIANNOL Y CYNGOR HYD FIS MEDI, 2024

Rhannwyd taenlen yn dangos y gwariant a'r derbyniadau hyd ddiwedd Medi, 2024 – rhan o'r cofnodion.

Penderfynwyd rhoddi y wybodaeth i fyny ar yr hysbysfyrddau yn y Gymuned.

51. AWDURDOD I DALU

Adroddwyd nad oedd unrhyw daliad yn ddyledus y mis hwn.

52. Y GALW AM SAFLEOEDD – CYNLLUN DATBLYGU LLEOL GWYNEDD

Rhannwyd gwybodaeth fod y cyfnod ymgynghori ar y Cynllun uchod wedi ei ymestyn i'r 15fed Ionawr, 2025.

Nodwyd y wybodaeth.

Eitem 50.

MANTOLEN ARIANNOL AM Y FLWYDDYN 2024-2025

Dyddiad	Siec yn daladuy i:	Rhif y siec
04/04/2024	J.A.Pozzi	200822
	Clwb Snwcer Sam	200824
	Zurich	200826
	Urdd Gobaith Cymru - Eryri	200826
24/04/2024	HSBC	
17/05/2024	Rhys D. Williams	200820
	Radio Ysbyty Gwynedd	200821
	Cyfeillion Mynwent Llandegwning	200823
24/05/2024	HSBC	
10/06/2024	Gwenda Roberts	200833
	Gwenda Roberts	200833
	HMRC	200832
	Arfon Parry	200829
	Un Llais Cymru	200830
	Tyddyn Sachau	200831
24/06/2024	HSBC	
10/07/2024	Gwenda Roberts	BP
16/07/2024	Tyddyn Sachau	200837
24/07/2024	HSBC	
30/07/2024	Cae Chwarae Sam	200834
31/07/2024	Cylch Meithrin Pont-y-Gof	800825
	Cyngor Gwynedd	
13/09/2024	Gwenda Roberts	200840
16/09/2024	Cyngor Gwynedd	200841
24/09/2024	HSBC	
25/09/2024	HMRC	200839
28/04/2023	Cyngor Gwynedd	
02/05/2023	HMRC	
18.06/2024	Gwenda Roberts	
	Cyngor Gwynedd	

TALIADAU AM FIS EBRILL, 2024

Manylion y taliad	Gwelnyddol	Comin	Llesiant 2000	Adran 137	Liwybrau	Cyfanswm Net	TAW	Cyfanswm
Siec heb fynd drwodd 23/24	£96.00							£96.00
Cyfraniad	£200.00							£200.00
Yswiriant	£880.52							£880.52
Cyfraniad			£50.00					£50.00
Ffi'r banc	£17.00							£17.00
	£1,193.52		£50.00		£0.00			£1,243.52

TALIADAU AM FIS MAI, 2024

siec heb fynd drwodd 23/24	£40.00
Cyfraniad	£50.00
Cyfraniad	£125.00
Ffi'r banc	£12.00
	£227.00

TALIADAU AM FIS MEHEFIN, 2024

Gwenda Roberts	£420.00
Gwenda Roberts	£420.00
HMRC	£105.00
Gwe-lalya	£20.00
Aelodaeth	£186.00
Tyddyn Sachau	£200.00
Ffi'r banc	£11.00
	£1,362.00

TALIADAU AM FIS GORFFENNAF, 2024

Gwenda Roberts	£420.00		
Tyddyn Sachau	£39.99		
Ffi'r banc	£13.00		
Cyfraniad Ariannol			£100.00
Cyfraniad Ariannol			£200.00

TALIADAU AM FIS AWST, 2024

Praesept	

TALIADAU AM FIS MEDI, 2024

Cyflog y Clerc	£420.00							£420.00
Costau etholiad	£300.00					£300.00	£60.99	£360.00
Ffi'r banc	£9.00							£9.00
HMRC	£105.00							£105.00

DERBYNIADAU EBRILL 2024 i'w siec MAWRTH 2025

DERBYNIADAU AM FIS EBRILL, 2024

Praesept	
Ad-daliad TAW	

DERBYNIADAU AM FIS MEHEFIN, 2024

Siec wedi methu (200833)	

DERBYNIADAU AM FIS AWST, 2024

Praesept	

Yn y Banc 01/04/2024	£	4,679.46	Mantolen
		-£96.00	420 Taliad 2023/24
		-£200.00	420
		-£880.52	420
		-£50.00	420
		-£17.00	420
		£4,042.01	Derbyniadau
Yn y Banc 03/05/2024		£7,625.95	420
		-£40.00	421 Taliad 2023/24
		-£50.00	421
		-£125.00	421
		-£12.00	421
Yn y Banc 03/06/2024		£7,398.95	
		-£420.00	422
		£420.00	Siec heb fynd drwodd
		-£105.00	422
		-£20.00	422
		-£186.00	422
		-£200.00	422
		-£8.00	422
Yn y Banc 03/07/2024		£6,876.95	
		-£420.00	423 Gweler llinell 21 a 22
		-£39.99	423
		-£13.00	423
		-£100.00	423
		-£200.00	423
Yn y Banc 03/09/2024		£6,248.55	
		£3,250.00	424 Derbyniadau
Yn y Banc 3/09/2024		£9,345.55	
		-£420.00	425
		-£360.00	425
		-£9.00	425
		-£105.00	425
Yn y Banc 3/10/2024		£8,451.55	
		3,250.00	420
		394.80	420
Yn y Banc 03/05/2024		£7,625.95	420
		£420.00	422
		£3,250.00	424

MANTOLEN Y FYNWENT AM Y FLWYDDYN 2024/25		
1af EBRILL, 2024	£3,466.34	334
09fed Ebrill, 2024	£190.00	334 tal claddu a.y.
	£3,656.34	334 (ffi'r banc)
10fed Ebrill I 9fed Mai 2024	-£8.00	335 (ffi'r banc)
	£3,648.34	335
10fed Mai I 9fed Mehefin, 2024 30/05/2024	-£10.00	336 ffi'r banc
	£3,638.34	
10fed Mehefin I 9 Gorffennaf, 2024 30/06/2024	-£8.00	ffi'r banc
	£3,630.34	337
10fed Gorffennaf I 9fed Awst, 2024 30/07/2024	-£8.00	ffi'r banc
	£3,622.24	338
10fed Awst I 9fed Medi, 2024 30/08/2024	-£8.00	ffi'r banc
	£3,614.34	
10fed Medi I 9fed Hydref, 2024 30/09/2024	-£8.00	ffi'r banc
	£3,606.34	